*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **4 Mehefin 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2018** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i'r Aelodau, gynllun archwilio 2018 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sydd yn atodiad 1. Hefyd wedi'i hatodi er gwybodaeth i'r aelodau, mae tystysgrif yr Archwilydd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi gweithredu ddigon yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â'i ffi. Hefyd wedi'i hatodi, mae tystysgrif yr Archwilydd yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi gweithredu ddigon yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

**CEFNDIR**

4 Mae'r cynllun archwilio yn nodi'r gwaith arfaethedig, a'i gost. Amcan Archwilydd Cyffredinol Cymru yw cynnal archwiliad a chyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio.

**GWYBODAETH**

5 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud y gwaith canlynol:

- gwaith cyfrifon ariannol, gan gynnwys adroddiad archwilio datganiadau ariannol a barn ar ddatganiadau ariannol
- gwaith perfformiad, gan gynnwys archwiliadau ar y cynllun gwella ac asesu perfformiad, ac asesiad risg a sicrwydd.

6 £60,274 yw'r ffi a amcangyfrifir ac a nodir yn y cynllun archwilio. Fodd bynnag, os gwelir bod angen gwaith ychwanegol, mae'n bosibl y bydd ffi ychwanegol.

7 Mae'r dystysgrif sydd yn atodiad 2 yn datgan bod yr Archwilydd wedi archwilio tystysgrif cynllun gwella ATAGC, ac mae'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 o ran paratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau, sef:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella yn cael eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn cyrraedd unrhyw safon perfformiad y mae Weinidogion Cymru yn ei phennu.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Hwyluso gwasanaethau tân ac achub mwy integredig sydd o ansawdd uchel ac yn ymatebol fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, ac hynny'n deg ac ar sail risg |
| Cyllideb | £60,274 o gost |
| Cyfreithiol | Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Deddf Llywodraeth Leol 1999<br>Cod Ymarfer Archwilio<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Staffio | Amser swyddogion Tân ac Achub a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod yr archwiliadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Petai archwiliadau ariannol ddim yn cael eu cynnal, ni fyddai gwallau neu hepgoriadau yn y cyfrifon yn cael eu canfod a byddai rhanddeiliaid yn cael darlun camarweiniol o'r gwariant. |